# Cwmni

Rhifyn 190 Pris 80c Mis Mawrth 2017



**Tomos Sparnon yn ennill eto……….**

## PWYLLGOR A SWYDDOGION

*Ariennir yn rhannnol gan* ***Lywodraeth Cymru***

**Cadeirydd:** Robert Dutt  **Ymgynghorydd:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas  e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk  02920 862428  07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughme@aol.com  02920 885151

**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis  **Golygydd Lluniau:** Mary Jones

**Cynorthwy-ydd:** Jan Penney  **Digwyddiadur:** bethanjones@mentercaerffili.cymru

**Ieuenctid:** Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais, a Bethan Jones Menter Caerffili
W.Willliams, a Dilys Williams

**e-bost**: Golygydd@papurcwmni.cymru  **Gweplyfr/ Facebook:** Papur Bro Cwmni

**Gwefan:** menter caerffili.cymru/

**Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.**

**Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.**

Argraffir gan Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas , Caerffili, CF83 8DW

## Gwasanaethau Capeli Cymraeg Mis Mawrth

### Bethel


5ed  10.30 Y Parch. Cynwil Williams.
12fed  10.30. Y Parch. Dafydd Henri Edwards
19eg  Ymuno â Thonyfelin 10.30 a 5 o.g.
26ain  10.30. Y Parchedig Ddr. R Alun Evans.

### Tonyfelin

5ed  Bore a hwyr  Y Parch Milton Jenkins
12fed  Bore a hwyr  Y Parch Milton Jenkins
19eg  Bore a hwyr  Mr John Gwynfor Jones
26ain  10.30  Ymuno â Bethel
6.00 Oedfa'r aelodau

### Capel y Groeswen

12fed  3:00 y.p  Mr Gary Plumley



# Llwyddiant eto yng Nghaerffili! *gan Gwyneth Davies*

Nôl ym mis Tachwedd y llynedd, cyrhaeddodd nifer fawr o ddarnau celf Y Galeri yng Nghaerffili - gwaith artistiaid proffesiynol ac amatur - pob un ohonynt yn eiddgar i gael eu gwaith wedi ei arddangos a hefyd i ennill gwobrau'r Gystadleuaeth Gelf Agored a ariannir yn flynyddol gan Gyngor Tref Caerffili. O'r gwaith a gyrhaeddodd, dewiswyd 115 darn amrywiol, gwaith 71 artist, i greu arddangosfa fywiog a lliwgar i redeg gydol Ionawr hyd at ganol Chwefror.

Y beirniaid eleni oedd yr arlunydd tirwedd, Louise Collis, Gus Payne,o'r Red House Gallery ym Merthyr Tudful a'r arlunydd portreadau ac enillydd y gystadleuaeth yn 2016, Mark Youd. Roedd beirniadu'r gystadleuaeth yn waith heriol gan fod y testun, y cyfrwng a'r technegau yn hollol agored. Penderfynon nhw eu bod yn edrych am wreiddioldeb, techneg ac effaith emosiynol.

Rhoddwyd y wobr gyntaf o £750 i Tomos Sparnon o Gastell Nedd am ei waith portread 'Yr Hunan', gwaith ar bapur mewn siarcol. Dywedodd y beirniaid: "Mae'r artist buddugol yn llawn haeddu'r wobr ac yn adeiladu ei waith ar sylfaen dda."



Cyflwynwyd y wobr i Tomos gan y Cynghorwr Steve Kent, Maer Tref Caerffili.

Doedd gan Tomos ddim syniad taw fe oedd wedi dod i'r brig nes y cyhoeddiad ar y noson wobrwyo. Meddai - "Roedd ennill y gystadleuaeth yn brofiad anhygoel a chlywed sylwadau'r beirniaid am fy ngwaith, a'r rheswm y dewiswyd y darn, o gymorth mawr i ddatblygiad fy ngwaith. Cynhyrchwyd y gwaith mewn ymateb i arddangosfa o waith Frank Auerbach, a welais yn Tate Britain - yn benodol ei hunanbortread o 1958."

Efallai eich bod chi, ddarllenwyr Cwm*Ni*, yn cofio'r detholiad o waith a enillodd y Fedal Gelf i Tomos yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2015 yn Llancaeach Fawr. Denwyd pobl at ei baentiad o dair cenhedlaeth o'i deulu a'i bortread rhyfeddol a sensitif o'i ddiweddar fam-gu. Ond yr hyn dynnodd sylw ymwelwyr i'r Babell Gelf fwyaf, oedd ei gasgliad o bortreadau pobl a anafwyd pan ddinistriwyd ysgol yn Gaza, ym Mhalestina gan fomiau yn 2014. Peintiwyd y portreadau ar hen ddesgiau ysgol, oedd yn ddewis addas ac ysbrydoledig. Roedd y portreadau yma'n ddarnau o waith pwerus ac emosiynol oedd yn dwyn i gof arswyd rhyfel ac yn achosi i ni deimlo tosturi a dicter at yr hyn a ddigwyddodd. Ar ymweliad â'r Babell Gelf, crynhodd Dafydd Islwyn effaith gwaith Tomos arno: "Roedd yn werth cynnal yr Eisteddfod er mwyn gweld hyn!"

Myfyriwr Lefel A oedd Tomos yn 2015 a'i waith yn dangos addewid ac aeddfedrwydd anhygoel am rywun mor ifanc. Braf felly yw gwybod bod Tomos wedi parhau i ddatblygu ymhellach fel artist addawol y dyfodol. Erbyn hyn mae e yn ei ail flwyddyn yng Ngholeg Celf Abertawe yn gwneud gradd mewn Celfyddyd Gain. "Rwy wrth fy modd â'r cwrs sy'n amrywiol a heriol ac yn ffodus fy mod yn gallu gwneud rhan fawr o'r cwrs drwy gyfrwng y Gymraeg." Ar ôl graddio, gobaith Tomos yw dilyn cwrs M.A. a'i uchelgais yw cael ei stiwdio ei hunan wedi hynny. Byddwn ni yn Sir Caerffili yn bendant yn dilyn ei waith fel artist rwy'n siŵr. Fel rhan o'r wobr yn y gystadleuaeth Gelf Agored bydd Tomos yn cael arddangos ei waith yn Y Galeri yng Nghaerffili nes ymlaen y flwyddyn hon. Lleolir y Galeri ar lawr gwaelod y Ganolfan Twristiaeth gyferbyn â'r castell, ble ceir arddangosfeydd hynod ac amrywiol. Mae'r oriel ar agor 10yb-5yh ddydd Mawrth i ddydd Sadwrn.

# CYNNYRCH BARDDONOL EISTEDDFOD y CYMOEDD

**ARWR** (Lewis Valentine)
*John Emyr, Y Mynydd Bychan oedd yn fuddugol am gyfansoddi cerdd heb fod yn fwy na 50 llinell.*

Daw i gof heddiw y digyfaddawd,
Y gwron union, gwir ei anianawd;
Cywir ei drywydd, y cawr i driawd:
Annwyl a gwrol, mynnodd roi molawd
I'r Gŵr fu'n orchfygwr gwawd – daeth i'w le
I'w fro a'i goetre o ferw ei gatrawd.

Dros Gymru'i wlad, ymroddiad o'i ruddin
Yn hael a roes drwy hiroes i'w werin;
Ei hyder acw yn nyddiau drycin
Glywaf fel islef tir fy nghynefin;
Goreugwr y gwir egin – a'i eiriau'n
Her a nawdd gorau i'n heddiw gerwin

**HEDDYCHWR**
*Martin Huws, Ffynnon Taf enillodd y gystadleuaeth llunio englyn*

Gormod, babanod mewn bedd, a heria
  yn hir y gorffwylledd.
 Ei lef o blaid tangnefedd
 nid tynnu ond claddu cledd

**LIMRIG**
*Denzil John, Caerffili enillodd cystadleuaeth llunio limerig a'r un gyntaf isod ddaeth yn gyntaf. Ond teimlwyd fod y ddwy arall ganddo yn deilwng o'u cynnwys.*


Aeth Nellie ar ôl bod yn nofio
I'r caffi am damed o ginio,
  Fe gofiodd y tips
  I warchod yr hips,
A gwrthod y chips wedi ffrio.

Aeth Nellie ar ôl bod yn nofio
I'r gawod ac yna cyn gwisgo
  Fe aeth i'r tŷ bach
  A dyna oedd strach
Pan welodd dau fachgen yn piso.

Aeth Nellie ar ôl bod yn nofio
Am deirawr o chwysad drwy seiclo,
  Bu'n jogio wyth milltir
  Ar hyd yr arfordir
Mae'n wir nad oedd hyn dros awr ginio.

# Posau'r Plant gan Mary Jones

Os gwnewch chi edrych yn ofalus ar y deg llun isod, fe welwch fod DAU ohonyn nhw yn union yr un peth. Allwch chi weithio allan pa ddau yw'r rheiny?




| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| U | B | M | N | I | L | E | F | Y | N | O | T |
| A | S | O | N | Y | E | L | E | A | Y | O | W |
| D | D | R | W | O | TH | S | P | T | M | R | Y |
| O | CH | G | B | LL | E | W | S | M | O | Y | N |
| L | N | A | T | D | B | A | Y | R | G | D | O |
| F | W | N | O | Y | M | C | O | W | A | W | L |
| L | B | J | N | CH | O | G | Y | A | W | I | Y |
| Y | W | O | E | O | FF | N | G | M | H | N | M |
| W | LL | N | P | TH | D | C | A | S | T | E | LL |
| G | W | E | D | Y | G | H | L | W | M | Y | A |
| O | R | S | O | P | R | S | Y | A | T | F | C |
| LL | Y | L | L | I | D | A | C | C | I | P | S |

Yn y chwilair mae UN AR DDEG gair sy'n ymwneud â thref Caerffili. Allwch chi eu ffeindio nhw.

Mae'r ateb i'r pos hwn a'r un uchod i'w gweld ar waelod Colofn y Dysgwyr.

## GEIRIADUR NEWYDD PRIFYSGOL CYMRU

Mae siarad am y tywydd yn ail natur i ni, ac yn fodd i gynnal sgwrs pan nad oes llawer arall i'w ddweud. A phetai'n bwrw eira, mae hynny'n destun siarad gan bawb!

Ond faint o eiriau sydd i ddisgrifio eira yn benodol? Mae yna ystôr ohonynt yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru, a rhai ohonynt yn hen iawn. Er enghraifft sonnir am **friwod,** sef eira mân a yrrir gan y gwynt, a **chynneiry**, sef eira cyntaf, tua'r flwyddyn 1400 yn Llyfr Coch Hergest. Mae'r bardd Iolo Goch yn cyfeirio at liw **nyf,** sef lliw eira, yn y 14$^{eg.}$ ganrif, a Dafydd ap Gwilym yn sôn am **ôd** (eira), gair sydd ar lafar o hyd mewn rhai ardaloedd yn y ferf **odi** (bwrw eira).

Ar ddiwrnod **eiriog** (llawn o eira), efallai mai **ffluwch** (haen denau), **ffrechen** (cawod ysgafn), neu **sgimpen** (haen denau) a gwymp, neu daw **eirwynt** a **lluwch** neu **luchfa** o **fanod** (mân ôd, eira mân) i'n cadw i ffwrdd o'r lonydd ac o'r gwaith. Ac wrth gwrs mewn ychydig o ddiwrnodau, bydd y **gwynneiry** (eira gwyn) neu'r **hiffiant** (eira wedi ei yrru gan y gwynt) wedi troi yn **isgell** neu **botes eira** (eira tawdd) hyll a budr.

A wyddoch chi am unrhyw hen eiriau lleol neu anghyffredin i ddisgrifio'r eira (neu unrhyw dywydd arall)? Chwiliwch amdanynt yn GPC ar lein (ac am ddim), http://gpc.cymru. Ac os nad ydynt yno, byddwch mor garedig â chysylltu â ni ar gpc@geiriadur.ac.uk neu Geiriadur Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth SY23 3HH. Rydym yn edrych ymlaen at glywed oddi wrthoch!

# Amddifadu’n Plant o’u Hawl i Addysg

A dyna’r frwydr drosodd. Ail safle ar gyfer Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn nhref Caerffili a lle yno hefyd i Ysgol Gymraeg Caerffili ar safle’r Gwyndy. Gall RhAG Sir Caerffili eistedd yn ôl gan edrych ar y sefyllfa gyda boddhad haeddiannol felly.

O, nage!

Nage, wir. Oherwydd methodd nifer o blant bach ddod o hyd i le mewn Ysgol Gymraeg eleni er mai dyna oedd dyhead eu rhieni.

Ond, sut felly? Mae Cyngor Caerffili – yr Awdurdod Addysg Lleol – yn dweud bod mwy o lefydd nag sydd o alw amdanyn nhw yn y sir.

Y gwir yw bod yna fwy o lefydd na’r galw, ond ydyn nhw yn y lle iawn? Nag ydyn, yw’r ateb. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu lle i 420 o blant bach i ddechrau mewn Ysgolion Cymraeg pob blwyddyn. 384 ddechreuodd yn ein hysgolion fis Medi 2016. IE, 384 O BLANT BACH YN DECHRAU YN EIN HYSGOLION CYMRAEG MEWN UN FLWYDDYN!!!! Felly, does dim digon o le - heblaw ei bod yn iawn gosod plentyn tair blwydd oed ar fws i deithio o Dretomas neu Abertridwr i fyny i Gilfach Fargod neu Ysgol y Lawnt yn Rhymni bell!

Nid mater o fod yr awdurdod yn ddi-hid yw hyn ond, yn hytrach, bod y fath gynnydd yn parhau i fodoli yn y galw am addysg cyfrwng Cymraeg. Pan gynlluniwyd ail safle Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn y Gwyndy ar gyfer plant o Ysgol Gymraeg Caerffili, Ysgol Ifor Bach ac Ysgol y Castell yn 2011 roedd 131 yn dechrau yn yr ysgolion hynny'r flwyddyn honno. Felly, penderfynwyd darparu ar gyfer yr amser y byddai’r rhif hwnnw yn codi i 140 o blant y flwyddyn. Ond erbyn mis Medi 2016 roedd y rhif hwnnw eisoes wedi codi o 131 i 158.

Dydyn ni ddim yn gwybod yn union y nifer o blant a wrthodwyd. Dyw’r wybodaeth ddim ar gael am fod rhieni yn gosod ysgol leol, ysgol cyfrwng Saesneg, fel ail neu drydydd dewis ar eu ffurflen gais. Wrth weithredu ar y wybodaeth honno mae swyddogion y sir yn cyflawni eu dyletswydd. Ac mae’n arwyddocaol mai’r unig rieni sydd wedi cwyno wrth RhAG am fethiant cael lle yw rhai sydd â phlant yn y system eisoes neu’r sawl sydd yn gyn-ddisgyblion eu hunain. Nhw, wrth gwrs, sydd fwyaf ymwybodol o’u hawliau.

Ac yn sicr, does dim cyfle i ddarpar rieni ddewis rhwng un ysgol Gymraeg ac un arall.

Beth yw’r cyngor gorau a ellir ei roi, felly, i rieni plant bach sydd am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg? Collodd nifer eu cyfleoedd wrth i’w rhieni ddewis ysgol oedd yn fwy cyfleus i’r teulu na’u hysgol ddalgylch. Canlyniad i hynny oedd i’r plentyn fethu cael lle yn yr ysgol honno gan fod yr ysgol yn llawn o ymgeiswyr o fewn ei dalgylch. Ond erbyn i’r rhieni sylweddoli hyn roedd yr ysgol ar gyfer dalgylch y plentyn hithau yn llawn. Felly, dylen nhw sicrhau eu bod yn gosod cais ar gyfer ysgol eu dalgylch.

**CWIS**

**17eg o Fawrth**

**7:00**

**Capel Tonyfelin**

Mynediad wrth y drws
(£5 yn cynnwys paned a chacen)

Elw ar gyfer y Daith i Batagonia
*Dewch yn llu!!!!*

# "Break a Leg"

Mae yna hen ddywediad y dylai actorion osgoi ymddangos gyda phlant. Ond byddai pawb a aeth i weld cynhyrchiad "Macbeth" Theatr Genedlaethol Cymru yn sicr o anghytuno â hyn. Oherwydd un elfen wnaeth y gynulleidfa ei mwynhau yng Nghastell Caerffili oedd gweld dau fachgen yn rhan o'r  cast cymunedol a fu'n cefnogi'r actorion proffesiynol. Mab Macduff oedd y ddau fachgen yn chwarae yn eu tro.  Un oedd Gethin Day sy'n mynychu Ysgol Glan Taf yng Nghaerdydd ond yr hyn sydd o ddiddordeb i ni, ddarllenwyr "Cwmni", yw mai Harvey Hewer o Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, gynt o Ysgol Gymraeg Caerffili oedd y llall.



***Harvey Hewer***

Dywed Harvey, "Rydw i'n 11 mlwydd oed ac roeddwn wrth fy modd yn cael rhan mewn sioe gyda chwmni mor adnabyddus yng Nghymru.  Roedd hi'n anhygoel fod y fath gwmni o'm cwmpas. Roedd e'n brofiad gwirioneddol dda, gweld sut y gwnaethpwyd pethau. Ac roedd cael cyngor gan yr actorion yn gwneud i fi deimlo bod croeso i fi.

"Hoffais yr awyrgylch yng nghefn y llwyfan gan wylio'r holl newid dillad. Mae cymaint yn mynd ymlaen y tu ôl i'r llen nad yw'r gynulleidfa yn ei weld.

"Roedd fy mhengliniau yn crynu y noson gyntaf, ond wrth i'r wythnos fynd yn ei blaen daeth yn deimlad mwy cyffyrddus a minnau'n gallu anwybyddu'r gynulleidfa. Hoffwn actio yn fawr iawn ond rydw i hefyd yn hoffi'r syniad o fod yn wyddonydd. Rydw i'n hoffi chwaraeon: rygbi, Aikido a marchogaeth. Rydw i'n hoffi gemau fideo a chwarae gyda fy nghŵn, Alfie a Daisy.

"Mae gen i un brawd a'i enw i'w Joseph ac mae e'n chwarae rygbi i Gigfrain Penybont (Bridgened Ravens)."

Bu'r syniad o lwyfannu un o ddramâu mawr Shakespeare o fewn muriau hanesyddol castell Caerffili yn llwyddiant mawr, ym marn nifer a fentrodd allan i weld y perfformiad ar nosweithiau oer. Bu prinder tocynnau er bod nifer o berfformiadau rhwng y 7fed a'r 18fed o Chwefror. Yn ychwanegol i hyn darlledwyd perfformiad nos Fawrth, 14eg i ryw ddwsinau o ganolfannau led led Cymru.

Yn ogystal â Richard Lynch a Ffion Dafis fu'n chwarae Macbeth a'i wraig, gwelwyd nifer o wynebau cyfarwydd yn ystod y perfformiad megis, Llion Williams a Phylip Harries.

Mae yna hen ddywediad hefyd na ddylai actorion ynganu'r gair "Macbeth" ond, yn hytrach, gyfeirio at y "Scottish Play" er mwyn osgoi anlwc. Hefyd, daeth "Break a Leg" yn ffordd o ddymuno'n dda i actorion. Ond mae'n sicr i'r enw "Macbeth" atseinio hyd furiau hynafol castell Caerffili lawer gwaith yn ystod ymarferion a pherfformiadau drama Shakespeare ond, o weld y cyflwyniad, prin y gellid credu bod unrhyw anlwc wedi dod i ran y cwmni hwn!

# Diwrnod Rhyngwladol Menywod *Dr Elin Jones*

Ganed fy mam-gu, Myfanwy Jeffreys, yn Rhymni ym 1879, yr ifancaf o bump o blant a aned i'r siopwr - a bardd - Twynog Jeffreys a'i wraig, Elin. Daeth i fyw yn Ystrad Mynach ym 1915, pan benodwyd ei gŵr, David Jones, yn brifathro'r ysgol elfennol newydd i fechgyn. Dyma'r adeg ar ôl suddo pwll Penallta pan oedd Ystrad Mynach a'r pentrefi eraill o gwmpas y pwll yn tyfu'n gyflym, a theuluoedd ifanc yn dod i fyw yma. Bu farw 'mam-gu ym 1978, yn Ysbyty Ystrad Mynach, ychydig o fisoedd cyn cyflawni'r gamp o fyw am ganrif. Roedd yn fenyw allblyg a galluog, ac un huawdl hefyd, a chadwodd ei nerth a'i galluoedd mewn i'w nawdegau.



***Tad-cu a mam-gu ar eu mis mêl***

Fel llawer ohonom, byddai'n hoff o sôn am yr holl newidiadau a welodd yn ystod ei bywyd – a chyda mwy o reswm na llawer ohonom. Wedi'r cyfan, fe'i ganed i fyd ceffyl a chart: bu fyw i weld dynion yn cerdded ar y lleuad. Byddai'n sôn hefyd am y ddau Ryfel Byd a welodd, am galedi dirwasgiad y 1930au, ac am welliannau ym myd meddygaeth.

Ond nid wyf yn cofio iddi gyfeirio'n aml at un o'r newidiadau a effeithiodd arni hi'n bersonol .Pan oedd hi'n fenyw ifanc, roedd menywod - a rhai dynion - yn ymgyrchu dros ryddfreinio menywod. Nid oes unrhyw dystiolaeth gen i fod mam-gu wedi ymuno yn yr ymgyrch honno, er y bu ganddi ddiddordeb byw mewn gwleidyddiaeth hyd ddiwedd ei hoes. Er na fu mam-gu  yn rhan ohono, elwodd ar ymgyrch y Swffragetiaid, ac roedd yn gofalu i ddefnyddio ei phleidlais yn gydwybodol.

Ni fyddai'n sôn chwaith am un o'r newidiadau sydd mor amlwg i ni heddiw, sef y newid aruthrol yn statws menywod, newid a ddigwyddodd yn ystod ei hoes hi. Enillodd rhai menywod y bleidlais ym 1918, a deng mlynedd yn ddiweddarach rhyddfreiniwyd pob dyn a menyw dros 21.

Pasiwyd nifer o ddeddfau yn ystod y blynyddoedd wedyn er sicrhau gwell hawliau i fenywod: y ddwy bwysicaf efallai yw Deddf Cyflog Cyfartal, a basiwyd ym 1970, a Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw, 1975.

Yn ystod oes 'mam-gu hefyd y cafodd menywod reolaeth dros eu ffrwythlondeb eu hun: dechreuwyd cynnig y bilsen atal cenhedlu i fenywod (priod) ym 1961, ac ym 1967 estynnwyd yr hawl honno i fenywod dibriod. Yn yr un flwyddyn, deddfwyd bod erthylu yn gyfreithlon mewn rhai amgylchiadau.

Ym 1911, pan oedd 'mam-gu yn fam i dri o blant, cynhaliwyd y diwrnod rhyngwladol cyntaf i dynnu sylw at hawliau menywod. Trefnwyd ralïau yn Awstria, Denmarc, yr Almaen a'r Swistir i alw am y bleidlais i fenywod, yr hawl i weithio, i dderbyn hyfforddiant galwedigaethol, ac am ddiwedd ar wahaniaethu yn y gweithle ar sail rhyw.

Pan fyddwn yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol Menywod ar Fawrth 8fed eleni, cawn gyfle i gofio am fenywod yr ugeinfed ganrif, fel mam-gu, ac am y modd y gwireddwyd eu gobeithion. Dathlwn yr hyn mae menywod wedi ei gyflawni yn ystod yr ugeinfed ganrif, a hynny mewn meysydd amrywiol iawn, o fyd gwleidyddiaeth i fyd chwaraeon.
Pa newidiadau a welir yn ystod y ganrif hon, tybed?



***Mam-gu a phwyllgor Townswomen's Guild, Ystrad Mynach, 1950au***
*(Mamgu ar y chwith eithaf. Roedd hi'n Gadeirydd am gyfnod hir, ac yn Llywydd wedi hynny).*

# Bant â Ni – i Batagonia!!!!



Ers cael y fraint o gynrychioli'n hardal ar daith yr Urdd i Batagonia, rydym wedi trefnu a chydlynu llu o weithgareddau i godi arian yn yr ysgol ac yn y gymuned. Mae'n targed o £4,800 yn amlwg yn ffigwr heriol, ond mae misoedd cyntaf ein hymgais wedi bod yn hynod lwyddiannus, ac rydym wedi cael ein syfrdanu gan haelioni caredig pobl leol. Ar ddiwrnod Santes Dwynwen, gwerthon ni gacennau blasus ein hathrawon medrus, cacennau tynnu dŵr o ddannedd  disgyblion yr ysgol. Roedd hyn yn llwyddiant ysgubol a chodwyd £168.06. Rydym hefyd wedi bod yn gwerthu te a choffi yn nosweithiau rhieni Cwm Rhymni. Rydym yn falch i gyhoeddi ein bod ni wedi codi £286.65 yn ystod y nosweithiau yma. Yn ogystal â hyn, cynhaliwyd diwrnod gwisg eich hunain ar ddydd Gwener y 10fed o Chwefror. Profiad rhyfedd tu hwnt oedd gweld ein cyd-ddisgyblion wedi gwisgo'n anffurfiol ar ein cyfer!

Yn ogystal â'n hymgyrch codi arian, rydym wedi bod yn cyhoeddi bwriad ein taith i ddisgyblion iau'r ardal leol. Rydym wedi bod yn cynnal cyflwyniadau byr mewn gwasanaethau ac yn holl ddosbarthiadau'r Gwyndy. Yn ogystal, cawsom  y  pleser o gwrdd â disgyblion Blwyddyn 5, Ysgol Gymraeg Caerffili i gynnal gwers llawn hwyl a sbri lle cyflwynwyd llawer o wybodaeth ynghylch traddodiadau unigryw'r Wladfa. Mae'r sesiynau  wedi denu ymateb hynod gadarnhaol, ac fel rhan o'r prosiect gobeithiwn allu mynd â gwaith disgyblion cynradd er mwyn creu cysylltiad gydag ysgolion y Wladfa.

Hoffem ymestyn diolch ychwanegol i bawb yn '*Tower Print'* oedd wedi creu baner wefreiddiol sy'n cyfleu argraff broffesiynol yn ystod ein holl ddigwyddiadau.

Rydym yng nghanol trefnu llond llu o ddigwyddiadau cyffrous ac ar  17eg o Fawrth, rydym  yn cynnal cwis yng Nghapel Tonyfelin. Bydd y cwis yn dechrau am 7 o'r gloch ac mi fydd tocynnau ar werth wrth y drws am £5, pris sy'n cynnwys paned a chacen. Hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu a'n cefnogi, ac os hoffech ragor o wybodaeth gallwch gysylltu ag Owain trwy e-bostio **owash16@gmail.com**.

# Cystadlaethau Cenedlaethol Gymnasteg cynradd yr Urdd

4 gwobr gyntaf allan o 6 i Ranbarth Gwent



**Merched Unigol**
1af  Darcey Simmons Ysgol Panteg

**Bechgyn Unigol**
1af Aled Lewis Ysgol Y Castell

**Parau**
1af Polly Jayne Misen a Carys Corden
Ysgol Y Castell

**Grŵp**
1af  Ysgol Gymraeg Y Castell

Cymraeg yw Iaith ein Taith


Ysgol Gymraeg Trelyn



Dyma ni, Blwyddyn 6, ym Mhwll Mawr ar ddiwrnod oer a gwyntog, yn dysgu am y pyllau glo i fynd gyda'n thema Byd Heb Olau.

## Ymweliad Blwyddyn 5 & 6 â Stiwdio Harry Potter













## Rygbi Trelyn

Dros y blynyddoedd mae tîm rygbi Ysgol Gymraeg Trelyn wedi bod yn un llwyddiannus iawn. Yn y gorffennol gwelwyd llwyddiannau yng nghystadlaethau'r Urdd ac yng nghystadlaethau 7 bob ochr y cwm. Mae ymroddiad y bechgyn, ag ambell i ferch, dros y blynyddoedd wedi bod yn wych, yn troi lan i ymarfer a chwarae mewn pob math o dywydd.

Ac yn wir i chi dyna a welwyd prynhawn dydd Gwener, 10fed o Chwefror 2017. Trefnwyd gemau yn erbyn ysgolion Maesycwmmer a Phengam. Roedd yr achlysur yn un pwysicach na'r gemau rygbi am ein bod yn ddigon ffodus i gael cit newydd wedi ei noddi gan ddau gwmni lleol, DJM Estates a siop gwisg ysgol Jansan, y ddau wedi'u sefydlu ym mhentref Fleur de Lys.

Gwelwyd rygbi pert yn cael ei chwarae gan y timau gydag ôl ymarfer amlwg. Cafwyd taclo ffyrnig ac ymroddiad gwych gan bob disgybl. Trelyn enillodd y gêm gyntaf yn erbyn ysgol Maesycwmmer o dri chais i un, ac yn yr ail gêm, eto buddugoliaeth i Drelyn, y tro hwn o saith cais i dri yn erbyn Pengam.

Prynhawn oerllyd a gafodd ei gynhesu gan rygbi gwych.



# Ysgol Gymraeg Trelyn

1991 2016







## Ysgol Gymraeg Trelyn yn Dathlu Chwarter Canrif

Ganol y tymor diwethaf, ar Dachwedd y 15fed, 2016 gwelwyd Ysgol Gymraeg Trelyn yn dathlu ei phen-blwydd swyddogol yn 25ain oed. Dros y pum mlynedd ar hugain gellir dweud yn sicr fod yr ysgol wedi ffynnu o dan arweinyddiaeth y brif athrawes wreiddiol Mrs Anne Hughes, a'r brif athrawes bresennol Mrs Liz Owen.

Tyfodd yr ysgol i fod yn un o hoelion wyth y cwm gan gynnig nifer fawr, eang o brofiadau i'r disgyblion o eisteddfota i chwaraeon i ymweliadau diddorol.

Yn ystod y pum mlynedd ar hugain, mae nifer o ddisgyblion wedi bod drwy'r drysau ond yr hyn sy'n hyfryd nawr yw gweld nifer o'r cyn disgyblion hyn yn dychwelyd gyda'u plant gan ddweud fod eu profiadau wedi bod yn rhai melys iawn ac wedi dewis i'w plant fynychu Trelyn hefyd!

Ar ddydd Mawrth Tachwedd y 15fed gwelwyd dathlu mawr yn yr ysgol gyda'r disgyblion a'r athrawon wedi gwisgo dillad arian. Pobwyd cacen gan gyn ddisgybl a chyn athrawes Trelyn, Bethan Persa, a gwahoddwyd ffotograffydd i'r ysgol i geisio efelychu'r llun cyntaf a dynnwyd nôl ym 1991.

Wrth i'r diwrnod mawr agosáu rhoddwyd gwahoddiad i gyn ddisgyblion ac athrawon ymuno yn y dathlu. Yn y neuadd cafwyd arddangosfa o'r atgofion a gasglwyd dros y pum mlynedd ar hugain. Galwodd nifer o gyn disgyblion i mewn a rhyfeddu ar yr atgofion oeddem ni wedi eu cadw dros y blynyddoedd.

Felly dewch i ni gael mynd yn ôl i 1991 i weld beth oedd yn digwydd yn yr hen fyd. Edrychwch ar y cwestiynau isod dros baned a chacen ganol bore i weld os allwch chi ddwyn i gof rhai o'r atebion.

Felly, beth oedd yn digwydd yn y byd yn y flwyddyn 1991 ?

Dewch i ymchwilio.

Pwy oedd prif weinidog Prydain ym 1991 ?
Pwy enillodd y prif gynghrair pêl droed Lloegr ym 1991 ?
Pwy oedd capten tîm pêl droed Cymru ym 1991 ?
Pwy oedd capten tîm rygbi Cymru ym 1991 ?
Ble gorffennodd Cymru yn nhabl Pencampwriaeth y Pum gwlad ym 1991 ?
Pwy oedd Arlywydd America ym 1991 ?
Pa ffilmiau oedd yn y sinema ym 1991 ?
Ble oeddech chi ym 1991 ?



# *HOMENAJE* I'R BRIGADAU RHYNGWLADOL 2016

*Dyma Wendy Lewis yn ein tywys yn ôl i Sbaen lle bu hi ar ymweliad i ddarganfod mwy am yr hyn a ddigwyddodd yn ystod Rhyfel Cartref tridegau'r ganrif o'r blaen. Fe gofiwch fod perthynas i Wendy a'i diweddar ŵr, Ray, wedi bod allan yno yn ymladd gyda'r Frigâd Ryngwladol.*

Bu farw Stan Hilton, yr olaf o'r Brigadiwyr Rhyngwladol o Brydain, yn ystod wythnos dathlu 80fed mlwyddiant dechrau'r Rhyfel Cartref yn Sbaen. Mae adleisiau iasoer o'r 30au cythryblus y bu ef byw drwyddynt yn parhau hyd heddiw. Cafodd miliynau eu dadleoli gan ryfeloedd yn y Dwyrain Canol ac yn Affrica. Mae Brexit wedi amlygu rhaniadau dwfn ym Mhrydain ac wedi rhyddhau ton o senophobia a hiliaeth. Yn yr Unol Daleithiau fe glywir poblyddwr gwallgof sy'n chwarae â gwendid ei wrthwynebydd. Yn Sbaen mae cyfundrefn sy'n bygwth bod yn fwy awdurdodol yn ein hatgoffa o ddigwyddiadau poenus y gorffennol, tra mae'r mudiad i ail-feddiannu cof hanesyddol i'w drosglwyddo i'r cenedlaethau sydd i ddod yn wynebu gelyniaeth o'r dde.



**Dydd Sul 23 Hydref**:
Gadewais Gymru a chychwyn am Sbaen am 4.00 y bore yng nghwmni Mary Greening, merch y Brigadwr Edwin Greening o Aberdâr, ac ysgrifennydd IB Cymru. Erbyn amser cinio roeddem ar y trên o Barcelona ac yn pasio coedlannau olewydd a thraethau gyda chytiau glan môr wedi'u cau dros y gaeaf. Doedd neb yng ngorsaf Bencassim ar bnawn Sul a doedd dim golwg o fws na thacsi. Edrychodd Mary a minnau ar ein gilydd gan feddwl sut oedden ni'n mynd i gyrraedd ein gwesty. Gwelais ddyn yn pasio heibio a gofynnais iddo sut allen ni fynd i'r Hotel Orange Intur. Fe gynigiodd lifft i ni ar unwaith.



Yn y bore aethom o amgylch y dref mewn tacsi; roeddem i fod i gymryd rhan mewn seremoni dadorchuddio plac i ddathlu hanes unigryw Benicassim. Roedd y llywodraeth weriniaethol wedi cymryd meddiant o'r filas mawreddog ar ôl i'r trigolion cyfoethog eu gadael. Yr Hotel Voramar oedd y prif ysbyty i'r Brigadau Rhyngwladol yn 1936-38. Ychydig iawn o le oedd yn y cyntedd bychan i bedwarawd y Maer a'r holl bobl oedd wedi dod ynghyd i rannu yn y dathliadau, ynghyd â baneri'r Ffrancwyr, y Pwyliaid, Yr Almaenwyr, a'r bataliynau Prydeinig ac Americanaidd.

Aethom allan i'r promenâd ac wrth i ni gerdded cymerom saib i gael golwg ar yr arddangosfeydd ffotograffig yn olrhain hanes yr adeiladau. Dyma lle'r oedd cartref i blant amddifad, cartref i gleifion oedd yn gwella, ysgol, a chanolfan ddiwylliannol lle bu Henmingway'n aros. Cafwyd darlleniadau o ddisgrifiadau cyfoes o'r dre ac fe ddarllenais i 'Tros Ryddid Daear' gan TE Nicholas, darn a ysgrifenwyd er cof am frigadwr o Gymru a laddwyd yn Sbaen. Chwyddwyd y dyrfa gan dwristiaid chwilfrydig o Brydain a phobl oedd yn digwydd pasio heibio. Cawsant eu diddanu gan gerddoriaeth y grŵp siambr Marxant a Jan Hammarlund, y canwr o Sweden, a roddodd i ni ddehongliad hyfryd o *Joe Hill's Last Will*.

Mae cofebau i'r Rhyfel Cartref yn Sbaen yn cael eu fandaleiddio yn aml, sy'n dangos yr ymgyrchu cynyddol i ddod i delerau ag etifeddiaeth Franco. Roedd plac i'r Brigadwyr Rhyngwladol ym Mynwent Bencassim wedi'i falurio ond fe ddadorchuddiwyd un newydd wedi'i wneud o haearn bwrw yn nodi enwau'r gwirfoddolwyr a'u gwledydd genedigol.

Gosodwyd blodau yn seiniau Canon Pachelbel ac fe gafwyd yr Internationale mewn deuddeg iaith – Saesneg, Eidaleg, Ffrangeg, Daneg, Almaeneg, Pwyleg, Tsieinëeg, Rwsieg a Chymraeg – a oedd yn atseinio o amgylch muriau'r fynwent.



Cafwyd mwy o ganu wrth i ni fwyta ein cinio o paella, silod mân, sardîns, a salad. Ymunais â'r Almaenwyr yn 'Freiheit' ac fe ganodd y Sbaenwyr 'Maruxina', cân y mwynwyr Asturaidd yng ngwrthryfel 1934. Eglurodd Josep Almudever, 97 oed, un o'r ychydig frigadistas sydd ar ôl, yn eglur a theimladwy beth a'i symbylodd ef i amddiffyn y Weriniaeth yn erbyn cydgynllwyn Natsiaidd a pholisi 'dim ymyrraeth'.

Wedi'u gosod allan ar fwrdd o'i flaen oedd copïau o'i gofiannau a lluniau ohono gyda'i frawd ym musnes syrcas y teulu, fel carcharor Franco, ac fel dyn ifanc trwsiadus ei olwg. Roedd y daith o ddwy filltir ar hyd y traeth yn ôl i'r Hotel Orange Intur yn egwyl bleserus.

Daeth galwad am gynrychiolydd Prydain, 'Ble mae Mary Greening?' Doedd hi ddim wedi gallu dod i mewn i'r stafell ac felly fe gynrychiolais Gymru gan ddweud ychydig eiriau yn Gymraeg.



Yn 1937 roedd gwneuthurwyr ffilmiau o Rwsia wedi cynhyrchu ffilm fer mewn du a gwyn am y Lincolniaid yn Sbaen ac roedd y ffilm hon wedi'i darganfod yn ddiweddar ac wedi'i hadfer.

Roeddwn wrth fy modd o gael cyfarfod eto â Nancy a Len Tsou - y tro diwethaf i ni gyfarfod oedd yn ystod y 70au yn Homenaje, pan oedden nhw'n ymchwilio i mewn i wirfoddolwyr o Tsieina, Siapan, Ynysoedd y Ffililpino ac India ac roeddent wrthi yn cofnodi'r 80fed cylchwyl.

*Edrychwn ymlaen at ddarllen am fwy o brofiadau Wendy yn ein rhifyn nesaf o "Cwmni".*

Mae rhai o'n darllenwyr wedi mynegi diddordeb mewn derbyn y papur mewn ffurf electronig. Mae'r dechnoleg gennym i gynnig gwasanaeth electronig fel hyn. Os oes digon ohonoch chi'n teimlo yr hoffech dderbyn eich papur dros y We gallwn fynd ati i ddarparu gwasanaeth. Rhowch wybod.

Cofiwch fod modd darllen ôl rifynnau ar ein gwefan. Does ond rhaid i chi ymweld â gwefan mentercaerffili.cymru a gwasgu ar yr icon Cwmni

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yn ein cyfarfod diwethaf (Ionawr 16eg) cawsom gwmni'r Parchedig Ddr. Noel Davies o Abertawe i'n hannerch ar y testun "Bôngelloedd". Dyma enghraifft o arallgyferio fel yr eglurodd Noel wrth ddweud mai hwn oedd y tro cyntaf iddo annerch cymdeithas wyddonol ar destun gwyddonol. Bydd llawer yn gwybod amdano yn bregethwr a darlithydd bywiog a threiddgar; treuliodd ei oes yn weinidog yr Efengyl Gristnogol yng Nghymru a hefyd yn swyddog gyda mudiadau ecwmenaidd dan nawdd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Mae'n awdur sawl llyfr a llu o ysgrifau ar destunau diwinyddol.

Sut felly, gyda'r cefndir hwn, y derbyniodd y gwahoddiad i ddod atom? Mae rhan o'r ateb ym manylion ei yrfa addysgol a ddechreuodd yn ysgol fabanod Dowlais. Symudodd wedyn i ysgol gynradd Cellan, i ysgol uwchradd Llanbedr-pont-steffan ac i ysgol uwchradd Garw (Pontycymmer). Prin oedd addysg wyddoniaeth yn y cyfnod cynnar, ond bu'r uwchradd yn ddigon i ddylanwadu arno i ddilyn cyrsiau gradd mewn cemeg a biocemeg yn y brifysgol ym Mangor. A gyda hynny dyma newid llwyr ac ennill gradd mewn diwinyddiaeth yn Rhydychen a mynd i'r weinidogaeth. Maes o law dyfarnwyd iddo radd ddoethur. Wedi ymddeol ail-gydiodd mewn gwyddoniaeth ac ennill gradd yn Y Brifysgol Agored. Y cam mwyaf diweddar yn ei yrfa yw'r gwaith ymchwil ar gyfer gradd Meistr yn Ysgol Feddygol Prifysgol Abertawe. Yr ymchwil hwn oedd sail ei anerchiad i ni.

Mae bôngelloedd yn medru cael eu ffurfio'n gelloedd newydd mewn gwahanol organau yn y corff, er mwyn adfer yr organau hynny a'u cadw i weithredu fel y dylent, megis celloedd yr ymennydd. Gan mai methiant y galon yw achos pennaf marwolaethau yn y Gorllewin, gallai cyfraniad bôngelloedd drawsnewid bywydau miliynau. Canolbwyntiodd Noel ei ymchwil ar galonnau lloi marw. Yn dilyn amlinelliad o'i astudiaethau tynnodd ein sylw at bapur gwyddonol technegol a gyhoeddwyd yn 2011 – *Cardiac Muscle Development*. Er mawr syndod iddo – ond o ddiddordeb o gofio'i gefndir – ym mhlith y manylion gwyddonol dyma nodi dyfyniad o'r Hen Destament (Eseciel 36, 26), "Tynnaf allan ohonoch y galon garreg, a rhof i chwi galon gig". Cawsom wedyn drafodaeth ddiddorol ar ystyriaethau gwyddonol a Christnogol, gyda Noel yn rhoi ei sylwadau tra'n ofalus i ddweud ei fod yn derbyn na fyddai pawb o'r un farn. Parhaed y drafodaeth.

Mae'n debygol y gwelir cyhoeddi ym mis Gorffennaf gyfrol Cristnogaeth a Gwyddoniaeth gan Noel Davies a Hefin Jones.



## Merched y Wawr Cwm Rhymni

Daeth criw niferus ohonom at ein gilydd yng ngwesty Manor Parc, Thornhill, i ddathlu dydd Gwyl Dewi a hefyd Santes Dwynwen. Ond efallai yn bwysicach fyth eleni dathlwn hanner canmlwyddiant y Mudiad, sydd erbyn hyn oddeutu 6,400 o aelodau.

I nodi dathlu'r Aur dosbarthwyd bag i bob aelod dros Gymru, felly cawsom ein bagiau yn y ginio, yn ogystal a cherdyn aelodaeth am oes - cerdyn aur - a fydd cyn hir yn cynnig gostyngiad i aelodau mewn amrywiol siopau. Fel arfer, roedd y cwmpeini yn hyfryd a'r awyrgylch yn gyffyrddus.

Nos Fercher, 15 Mawrth 2017 am 7.30


Gweithdy FFELTIO o dan ofal EIRIAN THOMAS

FESTRI CAPEL TON-Y-FELIN, CAERFFILI

CROESO CYNNES

Am wybodaeth cysylltwch â - gaynorw555@gmail.com

# Colofn Dafydd Islwyn




Darllen atodiad chwaraeon y Western Mail un bore dydd Llun am dîm pêl droed Aberbargoed Buds yn cael gêm gyfartal un yr un oddi cartref yn West End. Mae'r ddau dîm ar waelod Ail Adran y Gynghrair Gymreig - prif gynghrair y clybiau rhan amser yn Ne Cymru. A oes tymor caled o'u blaen eleni eto fel y llynedd? Ym mis Ebrill llynedd fe syrthiodd y tîm o'r Adran Gyntaf! Mae tîm rygbi Aberbargoed yn chwarae yn Adran 3, Dwyrain B, yn yr un gynghrair â Machen a Rhymni. Curo Tredegar Ironsides gartre o ddau ddeg saith pwynt i bymtheg a wnaethon nhw. Maent yn y pedwerydd safle allan o un ar ddeg. Uwchben Rhymni. Machen sydd ar y brig. Fe enillodd Rhymni yng Nghrymlyn o bedwar ar ddeg pwynt i un ar ddeg a churodd Machen Hafod yr Ynys gartref o bedwar deg pum pwynt i ddeunaw. Ddyddiau ynghynt yr oeddwn wedi darllen yn atodiad 'Weekend' y Telegraph' am sied y diweddar Handel Jones, Aberbargoed. Y dydd Gwener cynt darllenais erthygl am yr actor ffilm o Aberbargoed, Luke Evans. Pennawd yr erthygl Saesneg oedd "Luke y seren yn sôn am y bwlio yn ystod ei blentyndod!' Pob bwrw Sul deuai wyneb yn wyneb â'r rhai a'i poenydiai wrth grwydro o ddrws i ddrws gyda'i rieni crefyddol Y Tystion Jehofa.

Pennawd yr erthygl gan Lee John Phillips yn y Daily Telegraph oedd, "Dyn a sied a chan mil o frasluniau." Mae'n egluro fel y mae wedi bwrw iddi i arlunio pob eitem yng ngweithdy ei ddiweddar daid - hyd y nyten a'r hoelen leiaf sydd ynddi. Yn 2014 penderfynodd ei fod am gofnodi pob eitem sydd yn sied ei ddiweddar daid. "Roedd yn ddyn distaw, addfwyn, yn hapus yn ei gwmni ei hun," meddai "ac yn ei sied cafodd noddfa o drybini ei fyd." Bu farw Handel Jones y cyn löwr yn 1994 yn 61 mlwydd oed.

Ers hynny mae ei wraig wedi cadw'r sied fel ag yr oedd gan ei gŵr, yn gofeb o amgueddfa iddo. Yn ystod ei blentyndod fe dreuliodd Lee John Phillips oriau yn y sied yn gwylio ei daid, a fynnai atgyweirio unrhyw eitem beirianyddol yn hytrach na galw rhywun i'w gweld neu brynu un newydd. "Er ein bod ni ein dau yn hapus yn y tawelwch, o bryd i'w gilydd byddem yn sgwrsio. Roedd yn hoffi gwrando ar y radio neu ar ei gasét o ganu gwlad. Heb yn wybod i mi ar y pryd, yn ei ffordd dawel ei hun, roedd yn fy nysgu i fod yn ddarbodus a hunan gynhaliol." Gan i'w daid sylweddoli ei fod byth a beunydd â phensil a llyfr braslunio yn ei law aeth i Gaerdydd un dydd a phrynu pensiliau arbennig at arlunio iddo. Yn wahanol i aelodau eraill y teulu nid aeth i fyd peirianneg, plymwr na thrydanwr ond aeth ati i ddatblygu ei ddawn fel artist a dod yn athro celf. Pan ddechreuodd ar y gwaith yn y sied credai y byddai wedi cofnodi pob dim oedd ynddi o fewn dwy flynedd, yna tair ac yna pump. Bellach nid yw'n gaeth i'w amserlen oherwydd dim ond pum mil o eitemau y mae wedi'u harlunio. Mae dros naw deg pump mil o eitemau yn yn y sied!

Cyhoeddwyd gyda'r erthygl sut y concrodd Luke Evans ei ofn o'r bwlio. Mae llun ohono gyda'i gyd sêr yn y ffilm ddiweddaraf 'Girl on the Train'. Emily Brunt sydd yn chware'r brif ran a Hayley Bennet sy'n chwarae Megan, y wraig sy'n mynd ar goll yn y stori. Luke Evans sy'n actio ei gŵr. Addaswyd y ffilm, a saethwyd yn Efrog Newydd, o'r nofel Saesneg boblogaidd o'r un enw. Lleolwyd y nofel yn ardal y rheilffordd o Ashby i Euston, Llundain. Dywedodd Luke fod y stori yn portreadu cymeriadau ansefydlog sy'n ymladd y cythreuliaid sy'n eu gyrru. Ffilm ddirgelwch seicolegol yn dwyn i go' rhai Alfred Hitchcock ydy hi. Cyngor un adolygydd cytbwys ei barn, Lowri Cook, Caerdydd, oedd gwell peidio darllen y nofel cyn mynd i wylio'r ffilm. Ar y cyfan, ffilm foddhaol ydyw hi yn ôl yr adolygwyr. Ffilm nesaf yr actor o Aberbargoed fydd Professor Marston and The Wonder Woman. Ef fydd yn chwarae'r Professor.



***Luke Evans***

# Colofn y Dysgwyr *gan Ann Lewis*

Helo bawb! Mae mis Mawrth yn fis pwysig i ni'r Cymry. Ar Fawrth y Cyntaf rydyn ni'n dathlu Dydd Gwyl Dewi, *nawddsant* ein gwlad. Felly mae cerdd y mis yma yn sôn am Gymru, cerdd gan Robat Gruffydd o'r enw **a gymri di Gymru?** Yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Fenni llynedd roedd dysgwyr yn *adrodd* y gerdd yma mewn *cystadleuaeth.*

Weloch chi'r gystadleuaeth ar y teledu tybed? Roedd un wraig oedd bron yn gant oed yn cystadlu ar y llwyfan, ac yn adrodd yn arbennig o dda. Mae llawer o gerddi am Gymru yn sentimental iawn neu yn disgrifio Cymru *amser maith yn ôl*. Yn y gerdd yma mae Robat Gruffydd eisiau rhoi darlun realistig, yn sôn am bob *agwedd* ar ein gwlad heddiw - y pethau hyfryd a'r pethau sy ddim yn *apelgar,* fel y tywydd a Blaenau Ffestiniog! Os ydyn ni'n caru Cymru yna dylen ni garu y wlad *fel y mae*, nid fel gwlad berffaith ein *dychymyg.* Hefyd wrth gwrs mae'r bardd yn *chwarae ar eiriau* wrth ddweud : a **gymri** di **Gymru**

### A gymri di Gymru?

a gymri di'r byd
a'i holl *ryfeddodau,*
yr haul a'r sêr,
y pysgod a'r blodau?
a gymri di'r gwledydd
o bob lliw a llun?
a gymri di Gymru –
dy wlad dy hun?

a gymri di'r bryniau
a'r môr a'r afonydd,
y trefi a'r traethau
bychain *llonydd?*
a gymri di'r bobol
*gynhesa'n y byd?*
a gymri di Gymru –
a'i chymryd i gyd?

a gymri di'r cymoedd
a'r siopiau betio
a'r capeli *gwag* –
*a lanwan nhw eto?*
a gymri di'r Steddfod
a *Stiniog*, a'r glaw?
a gymri di Gymru
*beth bynnag ddaw?*

*nawddsant : patron saint* *a gymri di? : will you take* *adrodd : recite*
*cystadleuaeth : competition* *amser maith yn ôl : a long time ago* *agwedd : aspect*
*apelgar : appealing* *fel y mae : as it is* *dychymyg : imagination*
*chwarae ar eiriau : playing on words* *rhyfeddodau : wonders* *llonydd : still, tranquil*
*gynhesa'n y byd : kindest in the world* *gwag : empty*
*a lanwan nhw eto? : will they fill again?* *Stiniog = Blaenau Ffestiniog*

## Atebion Posau'r Plant



O'r deg llun sy'n debyg i'w gilydd rhifau

**3** a **6** sydd yn union yr un peth.

mentercaerffili.cymru

# Prosiect Ffônlyfr Caerffili

Rydym yn cydweithio â Tower Print a disgyblion Ysgol Cwm Rhymni i gwblhau ffônlyfr i ardal Caerffili. Ein bwriad yw casglu gwybodaeth am y ddarpariaeth Cymraeg sydd ar gael a'i gwneud yn fwy gweledol a hygyrch. Bydd y ffônlyfr yn cynnwys manylion am fusnesau, cwmnïau, unigolion, clybiau ayyb sydd yn cynnig darpariaeth drwy'r Gymraeg.

Bydd y llyfryn yn cael ei dosbarthu i deuluoedd holl ddisgyblion ysgolion Cymraeg yr ardal, a hefyd bydd yr wybodaeth ar gael ar ein gwefan. Mae am ddim i hysbysebu.

Y wybodaeth sydd ei angen yw:
Enw Busnes/unigolyn,
Math o fusnes,
rhif ffôn cyswllt,
e-bost cyswllt,
gwefan.
Beth yw'r ddarpariaeth Cymraeg (Nwyddau, siaradwyr ayyb)?

Os oes gennych chi fusnes, neu'n ymwybodol o rywun sydd â busnes a hoffai fod yn ein ffônlyfr cysylltwch â Bethan am ragor o wybodaeth:

bethanjones@mentercaerffili.cymru
01443820913

## Boreau Coffi



**Bore Coffi Caffi'r Graig Bedwas** Dydd Llun / Mondays (10:30-11:30)
**Bore Coffi Wetherspoon's Caerffili** Dydd Mawrth / Tuesday (10:00-11:00)
**Bore Coffi Wetherspoon's Coed Duon** Dydd Iau / Thursdays (10:30-11:30)
**Bore Coffi Capel DanyGraig, Risca** Dydd Iau / Thursday (10:30-11:30)

mentercaerffili.cymru
bethanjones@mentercaerffili.cymru
01443820913




## Sadwrn Siarad

**Mawrth 25 2017**
**Capel Siloh**
**Ystrad Mynach**
**10:00-12:00**

## IOGA

**Sesiynnau wythnosol**
**Nos Fawrth 5:15-6:15**
**Capel Siloh Ystrad Mynach**

Chwaraeon

**Rachel@urdd.org**
**07881782600**

## Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Gwent

| Diwrnod | Clwb | Oedran | Pris |
|---|---|---|---|
| Dydd Llun | Pel droed a Rygbi Bach<br>4:30-5:15<br>Neuadd Y Gwyndy | Meithrin i blwyddyn 2 | £2.50 |
| Dydd Mawrth | Gymnasteg<br>4:30-5:15<br>Neuadd Y Gwyndy | Meithrin i blwyddyn 2 | £3 |
| Dydd Iau | Dawns<br>4:00-4:45<br>Neuadd Y Gwyndy | Meithrin a Derbyn | £2.50 |
| Dydd Iau | Pel droed a Rygbi Bach<br>4:30-5:15<br>Neuadd Gelli Haf | Meithrin i blwyddyn 2 | £2.50 |




Clwb Ieuenctid
YMCA Bargoed
Dydd Mawrth
6:30-8:30pm

Pob Nos Fawrth
6:30

# Côr Cwm Ni

Ysgol Trelyn, Pengam

*Croeso i Aelodau Newydd*

**TACSI GORSAF CAERFFILI**
Cysylltwch â KEITH ar
022 362364 neu 07914 355195
facebook.com/tacsigorsafcaerffili

**Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd**







Coleg Gwent
**Cyrsiau Dydd Sadwrn**
Pob un rhwng 09:15 a 15:45

04/03/17 Campws Brynbuga

08/04/17 LLAC Glyn Ebwy

13/05/17 Campws Pont-y-Pŵl

Mae'r **Ysgolion Undydd** yn cael eu cynnal ar hyd a lled Gwent ar ddydd Sadwrn am 5 awr o ddysgu. **£10 yn unig**.

Coleg Gwent
**Cyrsiau Penwythnos**
Pob un rhwng 8:45 a 17.00

18-19/03/17 Sad-Sul Campws Pont-y-pŵl

20-21/05/17 Sad-Sul Campws Pont-y-pŵl

24-28/07/17 Llun-Gwe Campws Pont-y-pŵl

30/06-02/07/17 Gwe-Sul Llambed

Mae'r **Ysgol Haf** yn cynnwys 30 awr o wersi dros gyfnod o bum niwrnod. Bydd 8 lefel wahanol o ddosbarthiadau, gan gynnwys dosbarth i ddechreuwyr pur. **£50 yn unig**.

# Llun y Mis

Chris Davies yw’r artist sy’n gyfrifol am ein llun y mis hwn. Yn nyrs sydd wedi ymddeol mae Chris yn byw ym Medwas ac yn mynychu grŵp arlunio “Dydd Gwener” y grŵp sydd yn cyfrannu’n rheolaidd i “Cwmni”. Mae gan y grŵp arddangosfa yn llyfrgell Bedwas ar hyn o bryd.



## Clwb Llyfrau Cwm*Ni*

**Llawr cyntaf**
**Llyfrgell Newydd Caerffili**
2:00 o’r gloch

Mawrth 6ed “Mynd Adre’n Droednoeth”
Sonia Edwards
Ebrill 3ydd “Ymbeldredd”
Guto Dafydd
Mai 8fed “Rhwng Dau Fyd”
Mared Lewis
Mehefin 5ed “Dan Amheuaeth”
John Alwyn Griffiths
Gorffennaf 3ydd “Pant y Wennol”
Ruth Richards
Medi 4ydd Dewis Rhydd
Hydref 2ail “Awst yn Anogia”
Gareth F. Williams

*Croeso Cynnes i Bawb*

Bargoed Chiropractic
01443 879396

Llyfrau’r Enfys
Facebook/llyfraurenfys
Twitter @llyfrauenfys
Vikki Alexander-07970172754

